YR EGLWYS YNG NGHYMRU | THE CHURCH IN WALES

Oddiwrth Esgobion yr Eglwys yng Nghymru
~
From the Bishops of the Church in Wales

Tachwedd 2024

Ffrindiau annwyl,

Rydym yn ysgrifennu atoch gan fod angen i ni ddechrau cyfnod o ddirnadaeth ar gyfer ein Heglwys. Fel y bydd llawer yn gwybod bydd y cyfnod pum mlynedd ar gyfer y Defod Arbrofol sy'n caniatáu i glerigwyr fendithio priodas neu bartneriaeth sifil cyplau sydd eisoes wedi priodi neu mewn partneriaeth mewn seremoni sifil, yn dod i ben ym mis Medi 2026. Bydd angen i'r Corff Llywodraethol benderfynu beth fydd yn digwydd nesaf, ac a ddylid ymestyn caniatâd i'w ddefnyddio y tu hwnt i fis Medi 2026.

Mae'r Esgobion yn credu bod y penderfyniad p'un ai i ymestyn y caniatâd hwn neu adael iddo ddod i ben neu gymryd cam pellach a darparu i glerigwyr weinyddu priodas cyplau o'r un rhyw yn gofyn am ddirnadaeth a rennir. Rydym am ei gwneud yn glir pa mor arwyddocaol fydd y broses hon a'n bod ni ein hunain yn cymryd rhan mewn dirnad yr hyn sy'n ymddangos yn iawn i'r Eglwys a'r Ysbryd Glân. Er ein bod mewn gwahanol safle ar y mater hwn, rydym wedi ymrwymo i'r gwrando a'r drafodaeth sy'n nodi'r holl benderfyniadau da a wneir yn enw Duw.

Er mwyn cynorthwyo ein cyd-ddirnadaeth ac fel cam cyntaf, rydym yn gwahodd pob esgobaeth i gyfarfod mewn grwpiau llai i wrando ar ei gilydd. Gall hyn fod ar lefel Ardal Gweinidogaeth neu Genhadaeth, ar lefel Deoniaeth neu ym mha bynnag ffordd sydd orau gan bob esgobaeth, ac rydym yn gofyn i'r arweinyddiaeth ym mhob esgobaeth ddatblygu proses briodol. Rydym am wahodd yr Eglwys i wrando ar ei gilydd ac ar yr Ysbryd Glân a rhoi cyfle i bobl Duw fynegi eu barn, eu gobeithion a'u pryderon mewn ffordd sy'n cael ei nodweddu gan ysbryd o haelioni, parch a chariad. Ni fydd y cyfarfodydd hyn yn amser i drafod neu i ddadlau. Mae angen yn gyntaf i ni wrando ar ein gilydd ar hyn o bryd.

Yng Ngwanwyn 2025 byddwn yn rhoi sylw i'r materion hyn a bydd pob esgobaeth yn cadarnhau union fformat a lleoliadau ein cynulliadau. Rydym yn disgwyl y bydd yr ymateb a'r adborth o'r cynulliadau hyn yn ein galluogi i ddirnad sut mae'r Eglwys yng Nghymru yn gweld y dyfodol mewn perthynas â'r mater hwn.

Yn y cyfamser, gras a thangnefedd oddi wrth Dduw

| | | | |
|---|---|---|---|
| + Andrew Cambrensis | + Gregory Llanelwy | + Cherry Mynwy | + John Aber: |
| Archesgob Cymru | Esgob Llanelwy | Esgob Mynwy | Esgob Abertawe ac Aberhonddu |
| + Mary Llandaf | + Dorrien Tyddewi | + David Enlli | |
| Esgob Llandâf | Esgob Tyddewi | Esgob Enlli | |